



Our ref: ATISN 11153
Date: 31 Mawrth 2017

Annwyl ,

ATISN 11153

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 3 Mawrth 2017. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Sawl diwrnod, ers Mis Mai 2016 y mae'r Ysgrifennydd Cabinet dros Yr Economi ac Isadeiledd wedi gweithio yn Swyddfa'r Llywodraeth yng Nghyffordd Llandudno?

Sawl ymweliad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yma wedi ei wneud I swyddfa'r Llywodraeth yng Nghyffordd Llandudno?

Rhwng 01 Mai 2016 a 15 Mawrth 2017, cynhaliodd Ysgrifennydd y Cabinet 117 o ddigwyddiadau Gweinidogol yn rhanbarth Gogledd Cymru dros 48 diwrnod pan nad oedd Cyfarfod Llawn. O'r 48 diwrnod hynny pan nad oedd Cyfarfod Llawn, treuliyd 11 ohonynt yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno.

Cynhelir y Cyfarfod Llawn ar ddyddiau Mawrth a dyddiau Mercher ac mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn treulio dyddiau Gwener, dyddiau Sadwrn a dyddiau Sul yng Ngogledd Cymru fel Aelod Cynulliad yr Etholaeth.

O'r 117 o ddigwyddiadau Gweinidogol, cynhaliwyd 30 ohonynt yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Cynhaliwyd yr 87 digwyddiad Gweinidogol arall mewn manau eraill yn rhanbarth Gogledd Cymru.

Yn ogystal â'r digwyddiadau Gweinidogol a gynhaliwyd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno, ymwelodd Ysgrifennydd y Cabinet â'r swyddfeydd yn rheolaidd i ymgymryd â gwaith Gweinidogol ar sail ad hoc. Felly, nid oes cofnod o gyfanswm nifer yr ymweliadau â swyddfeydd Cyffordd Llandudno.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am



adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: [,FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk](mailto:FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk)

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir